



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Gweithdrefn Apelio Myfyrwyr

Dyddiad Cyhoeddi	Mawrth 2020
Dyddiad Adolygu	Chwefror 2022
Awdur	Kay Morgan Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd
Lleoliad y Polisi	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd gan	Tîm Rheoli'r Coleg – 12fed o Fawrth 2020

1. Sail Resymegol

- 1.1 Mae'r weithdrefn apelio ganlynol wedi cael ei llunio i sicrhau bod dysgwyr yn y Coleg yn cael eu trin yn deg.
- 1.2 Mae gan ddysgwyr yr hawl i apelio os ydynt o'r farn:
 - nad yw cwyn wedi cael ei datrys yn foddhaol trwy Weithdrefn Gwyno'r Coleg;
 - nad yw cwyn aflonyddu wedi cael ei datrys yn foddhaol trwy Bolisi Gwrth-fwlio'r Coleg;
 - nad yw'r Coleg wedi dilyn ei Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr a'i Weithdrefn Presenoldeb Myfyrwyr;
 - nad yw penderfyniad asesu wedi cael ei ddatrys yn foddhaol o dan Weithdrefn Asesu'r Coleg;
 - eu bod wedi cael eu trin yn annheg o dan Bolisi Derbyn y Coleg.
- 1.3 Os gwneir apêl yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud ag asesiad, gall y dysgwr wneud hyn drwy ddilyn proses apelio'r Corff Dyfarnu. Gall fyfyrwyr AU gyflwyno apêl dim on dos ydynt o'r farn nad yw'r broses asesu wedi'i gyflawni'n gywir. Ni allant apelio penderfyniad/gradd derfynol yr asesiad (gweler y Polisi Asesu, Apeliadau a Chamymddwyn)

2. Y Weithdrefn

- 2.1 Rhaid i'r dysgwr gyflwyno ei apêl yn ysgrifenedig i'r Pennaeth o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn canlyniad y gŵyn gan y panel presenoldeb, cwynion, aflonyddu neu ddisgyblu.
- 2.2 Yn achos Camymddwyn gan Fyfyriwr (nid camymddwyn difrifol) a materion ynglŷn â Derbyn, rhaid i'r dysgwr, a **dim ond** y dysgwr, gyflwyno ei apêl yn ysgrifenedig i'r **Cyfarwyddwr Ansawdd a Chwricwlwm** o fewn 5 diwrnod gwaith o gael ei wahardd o'r Coleg. Bydd y Cyfarwyddwr Ansawdd a Chwricwlwm yn gwerthuso sail yr apêl ac os nad oes unrhyw sail amlwg ar gyfer yr apêl ac mae'r Coleg wedi dilyn y gweithdrefnau yn gywir, ni elwir Panel Apelio. Cewch eich hysbysu am y canlyniad yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad yr apêl.
- 2.3 Yn achos apeliadau a gyflwynir i'r Pennaeth bydd y Panel Apelio yn cwrdd o fewn 10 diwrnod gwaith yn ystod y tymor ar ôl i'r Coleg dderbyn yr apêl.
- 2.4 Bydd y Panel Apelio yn cynnwys 2 o bobl o dîm rheoli'r Coleg a/neu o Gorff Llywodraethu'r Coleg. Ni fydd aelodau o'r panel yn gysylltiedig â'r achos mewn unrhyw ffordd.
- 2.5 Gall y dysgwr gyflwyno ei achos i'r Panel Apelio, gall ddod â thystion i gefnogi ei achos a gall fod yng nghwmni rhiant, gwarcheidwad neu ffrind.

- 2.6 Os bydd y dysgwr am gyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd rhaid ei chyflwyno i'r Coleg 5 diwrnod gwaith cyn i'r apêl gael ei chlywed.
- 2.7 Os na allwch ddod i'r gwrandawriad oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth dylech roi gwybod i'r Coleg cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech rhesymol i ad-drefnu unrhyw wrandawriad. Fodd bynnag, os na fyddwch yn hysbysu'r Coleg na allwch ddod, bydd y Panel Apelio yn mynd yn ei flaen yn eich absenoldeb.

3. Hawl i Gael Rhywun Gyda Chi

- 3.1 Mae gennych hawl i ddod â ffrind, gwarcheidwad neu riant i'r apêl. Chi sy'n dewis pwy fydd yn gydymaith i chi a rhaid i chi hysbysu'r Coleg o'ch dewis cyn gwrandawriad yr apêl. Yn achos myfyrwyr agored i niwed fe gynghorir i chi ddod â chydymaith gyda chi. Os nad yw hynny'n bosibl bydd y Coleg yn darparu eiriolwr i'ch cefnogi yn ystod y gwrandawriad. Os yw'r Coleg yn credu bod eich dewis o gydymaith yn afresymol, bydd yn gofyn i chi ddewis rhywun arall. Er enghraifft, os yw'r Coleg o'r farn:

- y gallai'ch cydymaith fod â gwrthdaro buddiannau neu ragfarnu'r cyfarfod.
- nid yw eich cydymaith ar gael adeg y cyfarfod, os yw dyddiad gwreiddiol y cyfarfod eisoes wedi cael ei ad-drefnu o'r blaen oherwydd nad oedd y cydymaith ar gael.

- 3.2 Yn ystod gwrandawriad apêl, gall eich cydymaith annerch y panel ac ymateb ar eich rhan unrhyw farn a fynegir. Fodd bynnag, mae'r gwrandawriad, yn ei hanfod, yn wrandawriad rhyngoch chi a'r Coleg a dylech chi, ac nid eich cydymaith, ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir yn uniongyrchol i chi, oni bai eich bod yn gofyn i'ch cydymaith ateb ar eich rhan.

4. Canlyniad

- 4.1 Gallai canlyniad yr apêl:
- gadarnhau penderfyniad y panel presenoldeb, derbyn, cwynion, aflonyddu neu ddisgyblu neu gadarnhau'r penderfyniad asesu.
 - newid neu wyrdroi penderfyniad y panel presenoldeb, derbyn, aflonyddu neu ddisgyblu neu newid neu wyrdroi'r penderfyniad asesu.
- 4.2 Mae barn y panel apelio yn derfynol ac nid oes hawl i apelio ymhellach. Bydd y Coleg yn ysgrifennu at y dysgwr i'w hysbysu o hyn o fewn 3 diwrnod gwaith yn ystod y tymor o'r gwrandawriad.

5. Yr Iaith Gymraeg

- 5.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 5.2 Croeso ichi gyflwyno Apeliadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd hyn yn oedi'r broses o lunio ateb ar eich cyfer.
- 5.3 Os ydych chi'n siarad Cymraeg ac yn dymuno cael cyfarfod apêl trwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod i ni yn eich llythyr apêl. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd.